**Cyfarfod Llawn 2001 – 2002 (61)**

**Dydd Iau, 18 Ebrill 2002**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 3**
**Datganiad: Prif Weinidog Cymru ar Fframwaith Adfywio De Ddwyrain Cymru**

**Eitem 4**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Drais Domestig**

**Eitem 5**
**Datganiad: Prif Weinidog Cymru ar y Comisiwn Annibynnol ar Bwerau'r Cynulliad**

**Eitem 6**
**Cymeradwyo Gwelliannau i Reolau Sefydlog 6 a 36**
**NDM1028 -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru a Rheol Sefydlog 34:

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ebrill 2002; ac

2. yn cymeradwyo'r diwygiadau canlynol i'r rheolau sefydlog:

**Rheol Sefydlog 6**

Dileu rheol sefydlog 6.3 (vi) yn gyfangwbl.

Dileu rheol sefydlog 6.26A yn gyfangwbl.

Yn rheol sefydlog 6.28, yn llinell 4 dileu ‘neu i aelod o Bwyllgor y Ty o dan baragraff 6.3(vi),’

Yn rheol sefydlog 6.30, yn llinellau 4 a 5 dileu ‘a'r aelod o Bwyllgor y Ty’.

Yn rheol sefydlog 6.31 dileu’r llinell olaf ‘Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys i gwestiynau sydd i'w hateb ar lafar gan aelod o Bwyllgor y Ty.’

**Rheol Sefydlog 36**

Dileu rheol sefydlog 36.7 yn gyfangwbl.

Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Busnes: Cynnig i Newid Rheolau Sefydlog 6 a 36 - *Ar gael yn Saesneg yn unig.*

**Eitem 7**
**Cymeradwyo Canllawiau ar Gwestiynau’r Cynulliad sy'n ymwneud â chwestiynau i Bwyllgor y Ty**
**NDM1029 -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn mabwysiadu’r Canllawiau diwygiedig ar Gwestiynau’r Cynulliad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ebrill 2002.

Cliciwch yma i weld y Canllawiau Diwygiedig ar Gwestiynau'r Cynulliad - *Ar gael yn Saesneg yn unig.*

**Eitem 8**
**Dadl ar Argymhellion yn Deillio o'r Arolygiadau Iechyd Meddwl a'r Cynllun Cofrestru ac Arolygu newydd -** ***Mae'r eitem hon wedi cael ei gohirio.***

**Eitem 9**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**
**NDM1027 -** Mae’r Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn nodi’r lefelau annerbyniol o uchel o amddifadedd, allgáu cymdeithasol a thanberfformiad economaidd yng Nghymoedd diwydiannol y De

2. Yn datgan ei hyder bod modd datrys y problemau yma a rhyddhau potensial y Cymoedd i gyfrannu’n llawn unwaith eto at lewyrch economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

i) i sicrhau bod strategaeth adfywio rhanbarthol integredig i’r Cymoedd yn cael ei llunio a’i gweithredu gyda thargedau clir ar gyfer nifer y swyddi ychwanegol sydd eu hangen;

ii) i sefydlu trefniadau strwythurol priodol, gan gynnwys penodi gweinidog cabinet, i gyflawni’r gwaith.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:*

(1)+(2)+(4)+(5)
(3) + (6)

**Gwelliant 1 -  Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Ym mhwynt 1 rhoi 'yn y Cymoedd Diwydiannol ac yng nghefn gwlad Cymru' yn lle 'yng Nghymoedd Diwydiannol y De'.

**Gwelliant 2 -  Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Ym mhwynt 2 ar ôl 'y Cymoedd' a chyn 'i gyfrannu'n llawn' rhoi 'ac ardaloedd gwledig'.

**Gwelliant 3 -  Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr):**
Dileu pwynt 3 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:

3. Yn croesawu menter Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi Fframwaith Adfywio'r De-ddwyrain;

**Gwelliant 4-  Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Ym mhwynt 3 ar ôl 'i'r Cymoedd' rhoi 'ac ardaloedd gwledig Cymru'.

**Gwelliant 5 -  Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Ym mhwynt 3, rhoi 'a bod y targedau a osodwyd yn 'Cymru'n Ennill' yn cael eu hadolygu i lefelau realistig sy'n cyfateb i'r adnoddau y mae Llywdodraeth Cymru'n eu darparu, ac yng ngoleuni ystadegau economaidd newydd sydd wedi'u cyhoeddi' yn lle 'gyda thargedau clir ar gyfer y swyddi ychwanegol sydd eu hangen'.

*Gellir dod o hyd i'r ddogfen 'Cymru'n Ennill' ar y Rhyngrwyd trwy ddefnyddio'r cysylltiad canlynol:* http://www.cymru.gov.uk/themesbudgetandstrategic/content/neds/awinningwales-0302-w.pdf

**Gwelliant 6 -  Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr):**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymeradwyo'r Fframwaith, ac yn cefnogi'r symiau a ddyrannwyd i'r prosiectau a nodir yn y Fframwaith, gan eu bod yn gyfraniad sylweddol ac ymarferol i'r gwaith o adfywio'r Cymoedd.

*Cafodd copi o'r Five Counties Regeneration Framework Final Report 2002 ei anfon trwy'r e-bost at bob Aelod ar 15 Ebrill 2002.*

**Eitem 10**
**Dadl Fer**
***NDM1026* Jonathan Morgan (Canol De Cymru): Cyfranogiad Pobl Ifanc mewn Gwleidyddiaeth**

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

**********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 23 Ebrill 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**